**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CABINET** |
| **PWNC:** | **CABINET - DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2023**<br>**DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2023** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: S. Thomas
H. Cunningham
J. C. Morgan
H. Trollope
S. Edmunds

A:

| **EITEM** | **PWNC** | **GWAITH** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw gais am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Derbyn penderfyniadau y cyfarfod arbennig o'r Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2023. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD cadarnhau'r penderfyniadau. | |
| **No. 5** | **<u>CABINET</u>**<br><br>Derbyn penderfyniadau cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - 2022/2023, RHAGOLWG ALLDRO HYD 31 MAWRTH 2023 (FEL AR 31 RHAGFYR 2022)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn nodi'r rhagolwg ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2022/23 (FEL AR 31 RHAGFYR 2022)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn:<br>• Parhau i gefnogi gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor, a<br>• Nodi'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli a monitro'r gyllideb a weithredir o fewn y Tîm Cyfalaf er mwyn diogelu cyllid yr Awdurdod. (Opsiwn 1) | |
| **No. 8** | **<u>RHYDDHAD ARDRETHI BUSNES – RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH – 2023/24</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Cabinet yn mabwysiadu Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch – cynllun 2023/24 ar ran y Cyngor, i atodi Cynllun Rhyddhad Ardrethi Dewisol y Cyngor (Opsiwn 2) | |
| **No. 9** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD CONTRACTAU DROS £500K</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth a gynhwysir o fewn yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | adroddiad. | |
| **No. 10** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD ANSAWDD AER LLEOL – 2022 (AR GYFER 2021)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn nodi cynnwys Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2022 ar gyfer CBS Blaenau Gwent yng nghyswllt y monitro parhaus a'r adolygiad cyfredol o ansawdd aer o fewn Blaenau Gwent gan Adran Iechyd yr Amgylchedd i gyflawni dyletswyddau statudol yr Awdurdod gan gydymffurfio gyda Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995. | |
| **No. 11** | **<u>ECO4 CYMHWYSTER HYBLYG – MEMORANDWM DEALLTWRIAETH A DATGANIAD AR Y CYD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad yng nghyswllt gweithredu ECO4Flex yn y fwrdeistref. | |
| **No. 12** | **<u>CYNLLUN CREU LLEOEDD BRYNMAWR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Tanlinellodd yr Arweinydd y byddai symud ymlaen ag unrhyw brosiectau o fewn y Cynllun Creu Lleoedd yn amodol ar ddynodi cyllid.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Creu Lleoedd Brynmawr, ei weledigaeth a'i uchelgeisiau craidd ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i gwblhau drafft y cynllun cyflenwi a chamau tuag at weithredu'r prosiectau a gaiff eu cynnwys ynddo. (Opsiwn 2) | |
| **No. 13** | **<u>CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod aelodau yn cymeradwyo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn amodol ar eglurhad a gafwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ac i'r Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ynghyd â'r Swyddog A151 gael awdurdod dirprwyedig i dderbyn diwygiadau i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth i hwyluso gweithredu y Gronfa Ffyniant Gyffredino fewn Blaenau Gwent . (Opsiwn 2) | |
| **No. 14** | **<u>CYNLLUN BUSNES EAS 2023-2025 (FERSIWN YMGYNGHORI – HYGYRCH)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r cynllun busnes. (Opsiwn 1) | |
| **No. 15** | **<u>CYNNIG I YMGYNGHORI AR GAPASITI CANOLFANNAU ADNODDAU ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Cabinet yn cefnogi'r ddogfen ymgynghori a'r llwybr gweithredu cysylltiedig. (Opsiwn 1) | |
| **No. 16** | **<u>CANOLFAN UWCH BEIRIANNEG (HIVE) GLYNEBWY</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth a | |

| | | |
|---|---|---|
| | eithriwyd yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1. | |